SHADRACH, AZARIAH (1774 - 1844), ysgolfeistr, gweinidog gyda'r Annibynwyr, awdur

Enw: Azariah Shadrach
Dyddiad geni: 1774
Dyddiad marw: 1844
Plentyn: Eliacim Shadrach
Rhiant: Ann Shadrach
Rhiant: Henry Shadrach
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr, gweinidog gyda'r Annibynwyr, awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Evan David Jones

Ganwyd 24 Mehefin 1774 yn Garndeifo-fach, Llanfair Nant y Gof, Sir Benfro, yn bumed mab i Henry ac Ann Shadrach. Ac yntau'n 7 mlwydd oed symudodd y teulu i Burton yn rhan Seisnig y sir. Rhyw dair blynedd y bu yno cyn dychwelyd at ei fodryb i Drewyddel. O dan ddylanwad y Parch. John Phillips, ymaelododd gyda'r Annibynwyr. Cafodd ychydig addysg gan John Young, clochydd Nanhyfer, ond ei hyfforddi ei hun a wnaeth yn bennaf. Ymrwymodd yn was fferm i'r Parch. John Richards, gweinidog Trefgarn, Rhodiad, a Rhosycaerau, ar yr amod y câi ddarllen llyfrau'r gweinidog yn ei oriau hamdden. Yn Rhosycaerau y dechreuodd bregethu. Aeth ar daith bregethu drwy siroedd y De yn 1797, a thrwy'r Gogledd yn 1798. Perswadiodd Dr. George Lewis, Llanuwchllyn, ef i ymsefydlu yn y Gogledd. Bu'n cadw ysgol yn Hirnant, Pennal, Derwen-las, a Threfriw, ac yn pregethu o le i le. Yn 1802 urddwyd ef yn weinidog yn Llanrwst. Symudodd yn 1806 i gymryd gofal eglwysi Talybont a Llanbadarn Fawr, Sir Aberteifi. Yn 1816 dechreuodd bregethu cyson i'r Annibynwyr yn Aberystwyth, a chorfforodd eglwys yno, 30 Mai 1819. Rhoes i fyny ofal ei eglwysi er mwyn gosod yr eglwys yn Aberystwyth ar ei thraed. Aeth yn gyfrifol am gasglu at godi capel Seion, Penmaesglas yn 1821. Agorwyd y capel yn 1823 ac yno y bu'r eglwys yn cyfarfod hyd nes y symudodd i Baker Street yn 1878. Teithiodd yn helaeth yng Nghymru a Lloegr i gasglu'r arian. Yn 1830 daeth ei fab, Eliacim, i'w gynorthwyo, ond yn 1834 symudodd i ofalu am eglwys yn Dursley. Ymddeolodd yntau yn 1835, ond bu fyw hyd 18 Ionawr 1844. Claddwyd ef ym mynwent S.Mihangel, Aberystwyth, ac ar ei feddfaen ceir pennill o farwnad gan fardd lleol a'i galwai'n Bunyan Cymru.

Cyhoeddodd Shadrach nifer o lyfrau poblogaidd o natur bregethyddol yn dwyn teitlau maith a hynod: (1) *Allwedd Myfyrdod*, 1801; (2) *Breudduyd ... un o drigolion Bethsemes*, 1802/3?; (3) *Drws i'r Meddwl Segur*, 1804; (4) *A Looking-glass*, 1807; (5) *Perlau Calfaria*, 1808; (6) *Clorianau Aur*, 1809; (7) *Blodau Paradwys*, 1810; (8) *Trysorau'r Groes*, 1811; (9) *Goleuni Caersalem*, 1812; (10) *Rhosyn Saron*, 1816; (11) *Udgorn y Jubili*, 1819; (12) *Cerbyd Aur*, 1820; (13) *Tabernacl Newydd*, 1821; (14) *Myfyrdodau Ysbrydol*, 1821; (15) *Glyn Angeu*, 1821?; (16) *Dyfroedd Siloam*, 1827; (17) *Gwallt Sampson*, 1831; (18) *Cangen o rawn camphir*, 1833; (19) *Myrr Dyferol*, 1833; (20) *Meditations on Jewels*, 1833; (21) *Tlysau Aur*, 1837; (22) *Blodau y Ffigysbren*, 1837; (23) *Cerbyd o Goed Libanus*, 1840. Cyfieithiwyd rhif 4 yn Saesneg gan Edward S. Byam a'i gyhoeddi fel *The Backslider's Mirror* (London, 1845).

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Hunangofiant yn *Cerbyd o Goed Libanus* (Aberystwyth 1840)

Josiah Jones, *Bywyd a gweithiau Azariah Shadrach* (Machynlleth 1863)

Oxford Dictionary of National Biography

Journal of the Welsh Bibliographical Society, Gorffennaf 1944

Darllen Pellach

D. Thomas a Mari A. Williams, Shadrach, Azariah (1774–1844), Independent minister and writer, *Oxford Dictionary of National Biography*, 2004

Erthygl Wicipedia: Azariah Shadrach

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 26796551

Wikidata: Q18346805

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu